**GRANT DYSGU PROFFESIYNOL/ *PROFESSIONAL LEARNING GRANT***

***Ionawr 2019 – Ebrill 2020***

| | |
|---|---|
| **Ysgol/*School*** | **Ysgol Morfa Nefyn** |
| **Swm a ddyrannwyd/ *Allocated Sum*** | **£2413** |

| | |
|---|---|
| **Amlinelliad o'r bwriadau/*Outline of intentions*** | Bwriad yr ysgol yw defnyddio y grant dysgu proffesiynol i dalu am athrawon llanw er mwyn gallu rhyddhau athrawon yr ysgol. Bydd yr ysgol yn sicrhau y cyfleoedd isod ar gyfer yr athrawon a'r cymorthyddion:<br>• Rhyddhau athrawon a chymorthyddion i fynychu hyfforddiant er mwyn datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth am y cwricwlwm newydd.<br>• Rhyddhau athrawon a chymorthyddion i ymchwilio a pharatoi yn dilyn hyfforddiant er mwyn sicrhau fod cynlluniau, trefniadau asesu a dulliau addysgu yn cael eu datblygu yn ol gofynion y cwricwlwm newydd.<br>• Rhyddhau athrawon a chymorthyddion i gydweithredu o fewn yr ysgol ac ar draws clystyrau a rhwydweithiau o ysgolion. Sicrhau fod cyfle i bob aelod o staff gymryd rhan mewn dysgu proffesiynol cydweithredol a chynllunio ar y cyd. |

| | |
|---|---|
| **Yr Effaith a'r Canlyniadau a Ddisgwylir/ *Expected Impact and Outcomes*** | • Bob aelod o staff yr ysgol gyda gwybodaeth a dealltwriaeth dda iawn am y Cwricwlwm i Gymru ac yn barod i gyflwyno'r cwricwlwm i ddisgyblion.<br>• Athrawon a chymorthyddion yn cael cyfle i wneud dewisiadau am eu datblygiad proffesiynol, yn ogystal ag ymateb i ofynion Cenedlaethol.<br>• Hyder athrawon a chymorthyddion yn datblygu drwy gyd-weithio gyda rhwydweithiau eraill.<br>• Athrawon yn hyderus i gynllunio yn greadigol gan sicrhau fod y pedwar diben yn ganolog i'r cynllunio.<br>• Cynllunio cwricwlaidd yr ysgol yn dangos fod y cwricwlwm yn eang, yn gytbwys ac yn heriol, ac yn bodloni anghenion pob dysgwr.<br>• Arsylwadau gwersi yn amlygu bod agweddau o'r cwricwlwm yn cael eu gweithredu'n llwyddiannus yn yr ysgol gan gael dylanwad gadarnhaol ar fewnbwn, brwdfrydedd a safonau disgyblion. |